# brwydr y bandiau 2012



ⓗ BBC Cymru

Wedi wythnosau o frwydro cerddorol a pherfformiadau safonol, dim ond pedwar band oedd yn sefyll ar gyfer y frwydr olaf un - Nebula (o Abertawe), Fast Fuse (o Abertawe), Sgidie Glas (o Landysul) a Tymbal (o Gaerfyrddin). Roedd y bandiau yn dibynnu'n llwyr ar bleidleisiau'r gwrandawyr i benderfynu pwy fyddai'n dod i'r brig.  A'r band hwnnw oedd NEBULA!

Roedd yr aelodau ar ben y byd - Llŷr Thomas (llais / gitar), Ifan James (gitar flaen), Gareth Thomas (bas / allweddellau), Daniel Gough (gitar rhythm) ac Will Mason Jones (drymiau).

"Mae'n anodd egluro sut ni'n teimlo - mae'n gam nesaf mawr i ni. Mae'n anodd cymryd cam fel hyn yn y byd cerddoriaeth. Gethon ni 10 allan o 10 gan Elin Fflur ac ma' fe'n deimlad gwych. Diolch anferthol i'r gwrandawyr - wnaeth cymaint o bobl helpu ni ledaenu'r neges, felly diolch iddyn nhw hefyd. Ni nawr ffaelu aros i recordio'r ail sesiwn gyda C2. Mae rhaid dweud, o edrych nôl, roedd y sesiwn recordio cyntaf yn brofiad gwych," meddai Llŷr.

Darlledwyd y rownd derfynol neithiwr ar raglen Lisa Gwilym, C2 BBC Radio Cymru, pan gafodd gwrandawyr y cyfle i glywed traciau a recordiwyd yn arbennig mewn stiwdio broffesiynol yn ogystal â barn y panelwyr swyddogol - Elin Fflur, Guto Brychan ac Ywain Gwynedd.

Fel gwobr bydd Nebula yn derbyn:

- cytundeb i recordio Sesiwn i C2, Radio Cymru (fel arfer 3 cân)
- perfformio mewn Gŵyl fawr genedlaethol megis Maes B, yr Eisteddfod Genedlaethol
- perfformio yng Ngŵyl Sŵn 2012
- perfformio ar lwyfan y Pentref Ieuenctid, Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd 2012
- chwarae yng Ngŵyl Gwydir
- cael erthygl 'tudalen-lawn' yn un o rifynnau cylchgrawn 'Y Selar'
- sesiwn luniau hanner diwrnod gyda ffotograffydd proffesiynnol
- cynnig i chwarae mewn gigs Mentrau Iaith Cymru

Am wybodaeth bellach, ewch i bbc.co.uk/radiocymru/c2/safle/brwydrybandiau